

O am dafodau fil mewn hwyl

Caneuon Ffydd: Rhif 288

O am dafodau fil mewn hwyl
i seinio gyda blas
ogoniant pur fy Mhrynwyr gwiw
a rhyfeddodau'i ras.

Genhedloedd byd, trowch ato'n glau,
addefwch ef yn Dduw;
cewch oll yn rhad eich cyfiawnhau
drwy ffydd yn Iesu gwiw.

Fy ngrasol Arglwydd i a'm Duw,
rho gymorth er dy glod
i ddatgan mawl i'th enw gwiw
drwy bobman is y rhod.

Fyddariaid, clywch! chwi fudion rai,
clodforwch Frenin heddi;
y dall a'r cloff fo'n llawenhau
mewn golwg ar ei wedd.

Dy enw di, O Iesu mawr,
a lawenycha'n gwedd;
pêr sain i glust pechadur yw,
mae'n fywyd ac yn heddi.

O rhoddwn fawl i Frenin nef,
moliannwn ef ynghyd;
fy enaid, mola dithau ef,
rho arno'n llwyr dy fryd.

CHARLES WESLEY 1707–88
cyf. ROBERT WILLIAMS, 1804–55

MYFYRDOD

Trosiad sydd yma gan Robert Williams, a fu'n weinidog gyda'r Wesleaid ym Miwmares, o un o 6,500 o emynau yr emynydd cynhyrchiol hwnnw – Charles Wesley. 'O for a thousand tongues to sing', meddai yn y gwreiddiol. Cyfansoddodd fynydd o emynau ac fe'i hystyrir yn un o brif emynwyr y byd.

Cafodd Charles Wesley dröedigaeth ar Sul, 21 Mai 1738, gan roi ei egnïon i gyd at waith yr Arglwydd yn sgil hynny. Dywedir iddo gyfansoddi'r emyn hwn er mwyn dathlu pen-blwydd cyntaf y dröedigaeth honno. Daeth yr awgrym iddo ei ganu yn sgil sylw a wnaeth Peter Bohler, un o'r Morafiaid yn Llundain y bu ei ddylanwad yn fawr iawn ar Charles a'i frawd John. Dyma oedd ei sylw: 'Had I a thousand tongues I would praise Him with them all.' Awydd angerddol sydd yma i foli Duw, gan wybod am y cyfyngiadau mae iaith yn eu gosod arnom ni, a chan wybod bod Duw yn fwy ac yn well nag unrhyw beth y gallwn ni ei ddweud

mewn disgrifiad a mawl amdano.

Mae'n debyg mai'r un oedd profiad y Salmydd wrth iddo yntau gael ei lenwi ag Ysbryd Duw: 'Yr oedd ein genau yn llawn chwerthin a'n tafodau yn bloeddio canu. Yn wir, gwnaeth yr Arglwydd bethau mawr i ni, a bu i ninnau lawenhau' (Salm 126:2-3).

Dyhea'r emynydd am fwy o ryddid i foli Duw; am gael datod y llyfftheiriau a'r cyfyngiadau sydd arnom fel pobl, i gael mynegi mawredd Duw, ei ras, ei gariad, ei ddoethineb, ei ogoniant a'i nerth yn fwy cyflawn. Amcangyfrifir bod tua 6,000 o ieithoedd gwahanol yn ein byd, er bod y niferoedd yn disgyn bob wythnos wrth i ieithoedd gael eu difodi a marw gyda'u siaradwyr olaf. Ond nid oes sôn bod yr un person byw wedi llwyddo i feistrolï mwy na thua 100 ohonynt. Ydy gofyn am gael mil ohonyn nhw gyda'u gwahanol droeon ymadrodd i gyd yn ormod i ofyn amdano felly? Fe gofiwn ar ddydd y Pentecost, ac yn yr hanes fel y'i ceir yn Actau 2 fod sôn am hyd at ugain o wahanol ardaloedd daeryddol oedd ag ieithoedd gwahanol ynddyn nhw i gyd. Sonnir yn Actau 1:15 fod yna 120 yn bresennol pan ddaeth yr Ysbryd Glân i'w plith ym mhennod 2. Ni allai neb oedd yno fod yn deall yr holl ieithoedd hyn a gâi eu siarad a'u hadnabod gan y dorf fel eu ieithoedd nhw eu hunain. Mae Duw trwy ei Ysbryd Glân yn gallu chwalu ffiniau ieithoedd, yn gallu rhoi ieithoedd newydd inni, rhai na fu inni eu dysgu erioed, er mwyn 'llefaru . . . am fawrion weithredoedd Duw' (Actau 2:11). Ef sydd, fel y mynega Robert Williams yn ei gyfieithiad, yn rhoi 'cymorth er dy glod i ddatgan mawl i'th enw gwiw drwy bobman is y rhod'.

Sonia Paul yn ei gerdd i gariad (1 Cor. 13), am 'dafodau dynion ac angylion', sydd yn dweud wrthym nad yr un fydd yr ieithoedd yma ar y ddaear ag sydd yn cael eu llefaru yn y nefoedd, ac na fydd cyfyngiadau ieithyddol na chwilio am eiriau yno er mwyn rhoi 'mawl i Frenin nef'. Yno y gwelwn ni gyflawniad deisyfiad Charles Wesley a rhoi iddo'r 'tafodau fil mewn hwyl'.

GWEDDI

O Dad nefol, yr wyt ti'n haeddu fy nghlod yn gyfan; cynorthwya fi i 'ddatgan mawl i'th enw gwiw' ym mha bynnag iaith yr wyt ti wedi ei rhoi neu am ei rhoi imi, Arglwydd mawr. Yn enw Iesu mawr. Amen.